pryd hwnnw, o'r Sol-ffa i Hen Nodiant. Bu'n rhaid iddo wneud wyth copi o bob tôn am fod wyth o gapeli'r cylch eisiau copïau i baratoi ar gyfer Cymanfa Ganu i gofio T. F. Jones. Golygodd y dasg oriau lawer o waith i Eddie Evans. Yr oedd y cyfan yn barod mewn da bryd. Yn Y Rhyl y bu'r Gymanfa, o dan arweiniad Dan Jones, Pontypridd, a dalodd deyrnged uchel i Eddie Evans am ei waith gan nodi na fyddai ef wedi 'taclo y gwaith hwn am bensiwn'.

* * * *

RHODDODD Eddie Evans enw ar bob un o'r dau gant o donau a gyfansoddodd, ac y mae yna storïau diddorol am sut y cafodd rhai ohonynt eu henwau. Dyma beth o hanes 'Deansgate'. Gwerthwr a gyrrwr gyda chwmni cig y Brodyr Hughes, Aintree, oedd Eddie Evans ar hyd ei oes, a daliodd ati i weithio tan yn 68 oed. Erbyn ei ymddeoliad roedd y cwmni yn rhan o gwmni mawr Bowyers. Un diwrnod roedd Eddie wedi parcio ei fan y tu allan i siop Woolworth ym Manceinion. Yr oedd tôn wedi dechrau ymffurfio yn ei feddwl a gafaelodd mewn darn o bapur i wneud nodiadau cyflym rhag ofn i'r ysbrydoliaeth ddiflannu. Pan oedd wrthi'n ysgrifennu daeth heddgeidwad ymlaen a dweud:

'Rydach chi wedi parcio eich fan mewn lle prysur iawn. Beth ydach chi'n wneud?'

'Ysgrifennu cerddoriaeth,' meddai'r gyrrwr.

'Pa fath o fiwsig?' gofynnodd yr heddgeidwad.

'Miwsig ar gyfer eglwysi,' meddai Eddie Evans.

Ac ar hyn dyma'r heddgeidwad yn codi ei lais a dweud:

'Tyrd yn dy flaen frawd. 'Rwyf innau yn y . . . côr fy hunan, . . . doniol iawn!'

'Deansgate' oedd enw'r rhan honno o Fanceinion a dyna'r enw a roddodd Eddie Evans ar y dôn!

* * * *

O'r holl donau a gyfansoddodd, 'Pantyfedwen' sydd yn mynd i anfarwoli Eddie Evans. Yr oedd yn byw yn Eccles ac yn 78 oed pan gyfansoddodd y dôn. Tôn ar gyfer cystadleuaeth yn eisteddfod Pantyfedwen yn Llanbedr Pont Steffan oedd hi. Daeth yn fuddugol allan o 69 o donau eraill ac fe gafodd ganmoliaeth o law y tri beirniad, Yr Athro Ian Parrot, Aberystwyth; Eurfyn John, Treforys; a Gerald Davies, Caerdydd. Diwrnod gwlyb oedd yr 2il o Fedi 1968 yn Llanbedr Pont Steffan pan gyflwynwyd gwobr o dri chan punt i Eddie Evans, tusw o flodau i'w briod, a chymeradwyaeth fyddarol. Dechrau'r stori oedd hyn.

Aeth y dôn ar ei hunion i raglenni cymanfaoedd ac i daflenni angladd. Cofiaf emyn W. Rhys Nicholas yn cael ei ganu ar y dôn 'Pantyfedwen' yn angladd fy nhad yn nechrau 1979. Soniai Eddie Evans yn fynych am y llawenydd a gafodd yn yr Albert Hall yn Llundain y tro hwnnw y daeth pymtheg o gorau meibion, mil o leisiau, i ganu trefniant Dr Llifon Hughes-Jones o'r dôn i gorau meibion o dan arweiniad John Peleg Williams. Cafodd brofiad bythgofiadwy yn gwrando ar y datganiad yn esmwythder y bocs brenhinol. Ym mis Mai 1980 darlledwyd rhaglen o 'Caniadaeth y Cysegr' oedd wedi ei neilltuo'n gyfan gwbl i donau o waith Eddie Evans.

Enillodd Eddie Evans ar achlysur arall yn Eisteddfod Pantyfedwen hefyd gyda'i dôn 'Gerllan' ar eiriau emyn hyfryd y Parchg D. G. Merfyn Jones, Bryncrug, o ddiolchgarwch am y cynhaeaf:

> Am euraid gynhaeaf y maes
> Moliannwn dy enw, Ein Duw.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, ddeng mlynedd ar hugain ar ôl ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth, cipiodd y brif wobr am dôn ar emyn o waith y Parchg Gwilym R. Tilsley: 'O Arglwydd Dduw, sy'n dal colofnau'r cread'. Galwodd y dôn hon yn 'Elwyn'. Ni ddaeth y tonau hyn mor boblogaidd â 'Pantyfedwen'.

* * * *

YN OLDHAM, heb fod yn bell o'i ferch, Ann, y treuliodd ei flynyddoedd olaf, ac yn Ysbyty Oldham y bu farw ar 30 Mai 1984, yn 93 mlwydd oed. Mewn llythyr ataf ychydig cyn iddo farw nododd mai ei ddymuniad oedd cael gadael y byd hwn yn sain cordiau gorchestol 'Pantyfedwen' ac yntau'n adrodd:

> 'Mae'r Haleliwia yn fy enaid i
> A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i Ti.'

Deallaf iddo dderbyn ei ddymuniad. Mae ei lwch yn gorwedd yn Amlosgfa Oldham, ymhell iawn o Dalysarn ac yn ddigon pell o Edge Lane. Mae wedi gadael ar ei ôl drysorau sydd yn mynd i sicrhau y bydd ei enw yn fyw am flynyddoedd. Yr oedd yn ddigon adnabyddus i Radio Cymru neilltuo 'Caniadaeth y Cysegr' ar brynhawn Sul, 7 Hydref 1990, y gyfan gwbl i'w gofio ar ganmlwyddiant ei enedigaeth. Ni threfnwyd amgylchiad tebyg yn Lerpwl ac fe gollwyd cyfle euraid.

Yr oedd ganddo ddigon o donau i'w enw, ar wahân i 'Llangernyw', 'Deansgate' a 'Phantyfedwen' ('Elm Bank', 'Glanystwyth', 'Iddo Ef', a 'Pantycelyn', er enghraifft) ar gyfer Cymanfa Ganu arbennig. Efallai y bydd modd achub y cam pan ddaw canmlwyddiant ei farw yn 2084, os bydd capel Cymraeg ar gael yn Lerpwl yr adeg hynny. Y mae un peth yn sicr, fe fydd canu ar 'Pantyfedwen' yn rhywle bryd hynny.


# AR WERTH

**Eitemau Hanesyddol Gwerthfawr:**

1. Copi o lyfr du Dafydd ap Gwilym (gyda rhifau ffôn ei holl gariadon).
2. Llun o Hogia Llandegai gyda'r Esgob William Morgan.
3. Trwydded yrru gyntaf Mary Jones, Llanfihangel y Pennant.
4. Neges ffacs a ddanfonwyd o Dde Affrig i Gymru yn nodi diwedd Rhyfel y Boer.
5. Tâp o sgwrs Hywel Gwynfryn yn holi Iolo Morganwg o un o raglenni cynnar 'Heddiw' ynglŷn â sefydlu Gorsedd y Beirdd.
6. Llun o dîm pêl-droed Dinas Caerdydd a gipiodd Gwpan FA Cymru yn 1845.
7. Dogfen, wedi'i harwyddo gan Syr Wyn Roberts, yn rhoi caniatâd cynllunio i godi Castell Conwy.
8. Copi prin o record 78rpm 'Yr Hen Ffordd Gymreig o Fyw' gan Edward H. Dafis.
9. Casgliad o ddwsin o stampiau post o gyfnod George VI.
10. Copi yn llaw y bardd (Dafydd Iwan) o Gân Croeso Arwisgo 1911.

Anfonwch eich cynnig am yr eitemau yn unigol, mewn amlen dan sêl, gyda rhif yr eitem, at:

**Blwch 014, Y Casglwr, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed SY24 5BG.**

* * * *

***The National Library of Wales Catalogue of Manuscripts.*** *Volume 1: Additional manuscripts in the collection of Sir John Williams;* John Humphreys-Davies. Aberystwyth, 1921.

***Hopkiniaid Morganwg . . .;*** Lamuel James 'Hopcyn'. Bangor, 1909.

***Diwygwyr Cymru . . .;*** Beriah Gwynfe Evans. Caernarfon, 1900.

***Wales Under the Penal Code (1662-87);*** Thomas Richards. Llundain, 1925.

***Mynegair ysgrythyrol wedi ei ddiwygio gyda'r gofal mwyaf;*** Peter Williams. Wrecsam, 1881.

***A Dictionary of eminent Welshmen;*** T. R. Roberts, 'Asaph'. Caerdydd, 1909. 12 rhan heb eu rhwymo.

***Y Cristion mewn cyflawn arfogaeth, neu Draethawd am Ryfel y Saint yn erbyn y Diafol;*** gan W. Gurnal, wedi ei gyfieithu gan Thomas Jones. Dinbych, 1862.

**Y Parchg TREVOR WATTS, 16 Shelton Road, Shrewsbury, Shropshire SY3 8SS. Ffôn: 0743 354104.**

# YN EISIAU

***Unrhyw lyfrau Cymraeg neu Saesneg ar Sir Faesyfed,*** *yn arbennig felly ardal Rhaeadr Gwy.*

**ROBERT LEWIS, Erw Las, Nantygader, Dolgellau, Gwynedd.**

* * * *

***Flora of Rhondda;*** Henry Harris. Bryste, 1905.

***The Ferns of Wales;*** E. Young. Castell Nedd, 1856.

***The Flora of Monmouthshire;*** S. Hamilton. Casnewydd, 1909.

***The Flora of Monmouthshire;*** J. H. Clark. Brynbuga, 1868.

***Handbook to the natural history of Carmarthenshire;*** T. W. Barker. Caerfyrddin, 1905.

***Materials for a fauna and flora of Swansea and the neighbourhood;*** L. W. Dillwyn. Abertawe, 1848.

***A Flora of Glamorgan;*** H. J. Riddelsdell. Atodiad i *The Journal of Botany*, 1907.

***List of Glamorgan flowering plants and ferns;*** E. Vachell. Caerdydd, 1936.

***Cynefin;*** cylchgrawn natur i'r teulu, rhif 26, Hydref 1987.

**GORONWY WYNNE, Gwylfa, Licswm, Treffynnon, Clwyd CH8 8NQ. Ffôn: 0352 780689.**

# DAVID E. HUGHES

## 21 Stryd Madog, Llandudno Gwynedd, LL30 2TL

## Ffôn: (0492) 877700 neu 876243

Dewis helaeth o lyfrau ail-law ar werth bob amser. Cofiwch alw heibio os byddwch yn dod am drip i Landudno yr Haf yma.

Ar agor: Llun – Sadwrn 9.00 – 5.00

Ar gau: Mercher